



Amcan Llesiant 7

Byw'n Dda - Cynyddu faint o dai rhent a thai fforddiadwy sydd ar gael

Ar y trywydd iawn i gyrraedd y targed o 1,000 o dai fforddiadwy ychwanegol rhwng 2016 a 2021

Tai fforddiadwy o ansawdd da yw sylfaen cymunedau iach a chynaliadwy. Rydym wedi darparu *dros 650* o dai fforddiadwy ychwanegol ers 2016 fel rhan o'r cynllun tai fforddiadwy

Pam y mae hyn yn bwysig

- Mae tai fforddiadwy o ansawdd da yn hybu *iechyd a llesiant*, gan ddiwallu anghenion unigol y preswylwyr a chreu cymunedau cynaliadwy cryf a lleoedd y mae pobl am fyw ynddynt.
- Mae tai fforddiadwy o ansawdd da sy'n effeithlon o ran ynni yn dda i *Bobl a'r Amgylchedd* - bydd yr ynni a ddefnyddir yn y cartref yn llai, gan gael effaith sylweddol ar leihau costau tanwydd i'r preswylwyr. Bydd hefyd yn cael effaith sylweddol ar leihau llygryddion yn yr atmosffer a lliniaru tloedi tanwydd yn ein cymunedau.
- Mae'n dda i'r *Strwythur Cymdeithasol* - mae codi tai fforddiadwy yn y manau cywir yn caniatáu i gymunedau groesawu ystod eang o deuluoedd a chreu grŵp o breswylwyr bywiog, amrywiol.
- Mae'n dda i'r *Economi* - er mwyn ffynnu, mae angen i fusnesau newydd gael mynediad hwylus i'w gweithlu. Mae datblygiadau tai fforddiadwy yn sicrhau bod teuluoedd sy'n gweithio yn aros yn eu cymuned.

Mesur Llwyddiant

+ 247


Tai Fforddiadwy Ychwanegol
yn ystod 2018/19



Egluro'r Canlyniadau

Perfformiad Tai Fforddiadwy - Perfformiad Cyffredinol o fis Ebrill 2016 Darparwyd 655 o Dai Fforddiadwy

Ardaloedd gweithredu fel % o boblogaeth y Sir
 19% = Trefi Gwledig a Threfi Marchnad Sir Gaerfyrddin
 22% = Caerfyrddin a'r Gorllewin
 17% = Rhydaman a Dyffryn Aman
 42% = Llanelli a'r Cylch



Y cynnydd a wnaed

- Fel rhan o *Gynllun Tai Fforddiadwy 2016-2021* hyd yn hyn rydym wedi darparu **655** o dai fforddiadwy ychwanegol yn cynnwys y canlynol:-


156: *Asiantaeth Gosod Syml*
(32: 16/17; 63: 17/18; 61: 18/19)

158: *Ailddechrau defnyddio tai gwag*
(28: 16/17; 63: 17/18; 67: 18/19)

195: *Prynu tai'r sector preifat*
(45: 16/17; 69: 17/18; 81: 18/19)

82: *Datblygiad tai newydd Cymdeithas Tai* – (45: 16/17; 20: 17/18; 17: 18/19)

64: *Cyfraniad gan ddatblygiad (adran 106)* (23: 16/17; 20: 17/18; 21: 18/19)



- Rydym wedi prynu **173** o dai sector preifat i gynyddu *stoc dai* y *Cyngor ei hun*. **22** o dai wedi eu prynu'n uniongyrchol gan Gymdeithas Tai Bro Myrddin.
- ran ein dau ddatblygiad adeiladau newydd cyntaf gan y Cyngor yn Dylan a Garreglwyd, mae gweithwyr ar y safle bellach yn codi 48 o dai newydd.
- Drwy'r system gynllunio (Adran 106) mae **64** o dai wedi'u darparu ar gyfer [Perchentyaeth Cost Isel](#) ac wedi'u henwebu i bobl leol yr oedd angen help arnynt i brynu eu tai eu hunain.
- Mae Cyngor Sir Caerfyrddin eisoes yn gwneud cynnydd rhagorol ar ei addewidion i ddarparu mwy na 1,000 o dai fforddiadwy erbyn 2021 ac mae rhagor o gynlluniau ar waith i adeiladu bron 1,000 o dai Cyngor ychwanegol.



Dyweddodd Mrs Evans "mae'r tŷ yn berffaith ar gyfer ein hanghenion ac yn teimlo fel cartref ein teulu eisoes", wedi iddynt symud i un o'n tai a brynwyd yn ddiweddar yn Nhirwaun, Porth Tywyn.



Yr Aelod o'r Bwrdd
Gweithredol dros Dai
Y Cyngorydd Linda Evans



Cliciwch yma i gael gweld [ein cynnydd manwl](#) o ran yr amcan hwn.